# Pwllheli

**Pellter:** 4.65km / 2.88 milltir
**Anhawster:** hawdd
**Amser cerdded:** 1.5 awr

Dim Camfeydd

Digon o gaffis yng nghanol y dref yn ogystal ag ar lan y môr. Toiledau cyhoeddus yng nghanol y dref ac yn nes at y traeth. Sawl cae chwarae yn y dref.

Mae'r llwybr hwn yn dilyn cymysgedd o lwybrau tarmac a phalmentydd yn ogystal â rhan fer drwy'r twyni tywod. Golygfeydd rhagorol o'r harbwr a mynyddoedd Eryri.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau


1. Gyda'ch cefn at yr orsaf ac yn wynebu Weatherspoons, trowch i'r chwith i lawr Ffordd y Cob. Cymerwch y ramp i'r dde o'r ffordd, a dilyn y llwybr ar hyd ardal y gwlyptir. Pan fydd hyn yn agor allan ac yn cwrdd â'r ffordd eto, cadwch i'r dde gan barhau i dilyn ymyl ardal y gwlyptir.

2. Ar ôl tua 250m, ewch ar y llwybr troed ar y chwith, gan fynd heibio'r ysgol. Pan fyddwch yn cwrdd â'r tai a'r ffordd, ewch yn syth drosodd nes i chi gyrraedd y traeth. Trowch i'r chwith, gan naill ai gerdded ar hyd y prom neu ar hyd y traeth ei hun.

3. Pan fydd y ffordd yn troi'n sydyn i'r chwith, gallwch ddewis mynd draw at y creigiau ac yn ôl. I wneud hyn, dilynwch y llwybr glaswelltog yn syth ymlaen ychydig uwchben y traeth. Mae'n mynd â chi at Grochan Berw. Sef creigiau braf uwchben y môr.

4. Ewch yn ôl ar yr un llwybr, a phan fyddwch yn cwrdd â'r prom eto, trowch i'r dde yn ôl tuag at ganol y dref.

5. Ar ôl tua 250m, cymerwch lwybr i'r dde. Mae'r ddolen wastad fer hon o amgylch yr harbwr mewnol yn lle gwych i edrych ar y cychod yn y marina. Cadwch y dŵr ar y dde i chi, a daliwch ati i ddilyn y llwybr o gwmpas. Fe ddewch yn ôl i'r ffordd yn fuan lle gallwch droi i'r dde a dilyn y ffordd yn ôl i'r orsaf.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023